**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref PB/
Ein cyf/Our ref EM/05038/17

Phil Bale
Councillor for Llanishen
Members' Services
Room 286
County Hall
Cardiff
CF10 4UW

phil.bale@cardiff.gov.uk

4 December 2017

Dear Councillor Bale

Thank you for your letter dated 9 November regarding your concerns about the GWR franchise and bilingualism and for your good wishes on my recent appointment as Minister.

The franchise is managed by the Department for Transport, and not by the Welsh Government. When the franchise was finalised, I understand that no requirements for bilingualism were placed on the franchise holder. I will be writing to GWR noting that the introduction of a new fleet of trains was an opportunity to improve the provision of information in Welsh on their services, and express my disappointment that they haven't taken advantage of that opportunity—especially in a period where technological developments make it easier to provide information in more than one language. The Minister for Economy and Transport will also be raising this matter directly with GWR and Network Rail shortly.

I will also ensure that the Department of Transport is apprised of the need to ensure that English-Welsh bilingualism is fully considered in all relevant aspects of its work.

Once a new rail services contract for Wales and Borders is in operation, I understand that the next operator will provide all written and verbal communications to the public and passengers within Wales in both English and Welsh. Welsh and English language customer communications, where requested for train enquiries and social media contact responses, will be offered, and where Welsh speaking staff are available Welsh language communications shall be provided at station receptions and ticket offices. Where Welsh speaking staff are not available, remote staff with Welsh language skills shall be available

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

by phone or remote presence technologies. We expect the operator to train a percentage of its customer facing staff in the Welsh language.

Yours sincerely,

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Eich cyf/Your ref PB/
Ein cyf/Our ref EM/05038/17

Phil Bale
Cynghorydd dros Lanisien
Gwasanaethau'r Aelodau
Ystafell 286
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

phil.bale@caerdydd.gov.uk

4 Rhagfyr 2017

Annwyl Cynghorydd Bale

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Tachwedd yn nodi'ch pryderon ynghylch masnachfraint GWR a dwyieithrwydd, ac am eich dymuniadau da ar fy mhenodi'n Weinidog yn ddiweddar.

Rheolir y fasnachfraint gan yr Adran Drafnidiaeth, ac nid gan Lywodraeth Cymru. Rwyf ar ddeall na roddwyd gofynion am ddwyieithrwydd ar y deilydd adeg rhoi terfynol wedd ar y fasnachfraint. Byddaf yn ysgrifennu at GWR yn nodi bod cyflwyno fflyd newydd o drenau yn gyfle i wella darparu gwybodaeth yn y Gymraeg ar ei wasanaethau, ac er mwyn mynegi fy siom na fanteisiwyd ar y cyfle hwn—yn arbennig mewn cyfnod lle mae datblygiadau technegol yn ei gwneud yn haws darparu gwybodaeth mewn mwy nag un iaith. Yn fuan, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth hefyd yn codi'r mater hwn yn uniongyrchol â GWR a Network Rail.

Byddaf hefyd yn sicrhau bod yr Adran Drafnidiaeth yn cael gwybod am yr angen i sicrhau bod dwyieithrwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg hefyd yn derbyn ystyriaeth lawn ymhob agwedd berthnasol ar ei gwaith.

Caf ar ddeall, pan fydd contract gwasanaethau rheilffordd newydd ar gyfer Cymru a'r Gororau ar waith, y bydd y gweithredwr newydd yn darparu pob cyfathrebu ysgrifenedig a llafar i'r cyhoedd ac i deithwyr yng Nghymru yn y Gymraeg. Cynigir ymatebion Cymraeg a Saesneg o ran ymholiadau trenau ac o ran cyswllt trwy gyfryngau cymdeithasol. Lle bo staff Cymraeg ar gael, bydd modd cyfathrebu yn Gymraeg mewn derbynfeydd a swyddfeydd tocynnau mewn gorsafoedd. Lle na fydd staff Cymraeg ar gael, bydd staff Cymraeg ar gael o bell dros y ffôn neu drwy dechnoleg presenoldeb o bell. Disgwyliwn i'r gweithredwr ddarparu hyfforddiant Cymraeg i ganran o'i staff a fydd yn wynebu'r cyhoedd.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning